# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Gorseinon

Dyddiad arolygu: 25 Mehefin 2018

Dyddiad cyhoeddi: 26 Medi 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.hiw.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78937-607-4



(h) Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

   Ansawdd profiad y claf ........ 9

   Darparu gofal diogel ac effeithiol ........ 14

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 25

4. Beth nesaf? ........ 28

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 29

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 30

   Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol ........ 31

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ **Error! Bookmark not defined.**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb:mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol:rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol:rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol:mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Trwy ein gwaith ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Gorseinon yn 40 Stryd Fawr, Gorseinon, Abertawe SA4 4BT sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 25 Mehefin 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Gorseinon yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion ac roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Nodwyd gennym bod y practis yn lân ac yn daclus ond roedd ardaloedd ag ôl traul yr oedd angen ymdrin â nhw. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr offer deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r practis, y cleifion a'r staff. Fodd bynnag, mae angen i'r practis roi rhaglen arfarnu staff ar waith.

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion
- Roedd gan y practis amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith
- Gwelsom dystiolaeth fod yr offer pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw a'i fod yn gweithio'n effeithiol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis sicrhau y caiff yr holl wybodaeth gyfrinachol am gleifion ei storio'n ddiogel ac na all cleifion eraill ei gweld
- Mae angen ymdrin â'r ardaloedd lle y nodwyd ôl traul

- Dylai'r practis ddarparu cyfleusterau storio canolog ar wahân ar gyfer ei wastraff clinigol
- Mae angen i'r practis sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â chanllawiau wrth ymgymryd â'r gwaith o lanhau a sterileiddio offer ac wrth wisgo cyfarpar diogelu personol
- Dylai'r practis storio, dosbarthu a gwaredu meddyginiaethau yn unol â'r canllawiau cyfredol.
- Dylid cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Gorseinon yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardaloedd Gorseinon ac Abertawe.Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, tair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym bod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Argymhellwn y dylai'r practis ddarparu amrywiaeth o daflenni hybu iechyd geneuol a thaflenni gwybodaeth am driniaethau i'r cleifion.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ac roedd system ar waith ar gyfer nodi cwynion ffurfiol, er bod angen ei diweddaru. Cynghorwyd y practis i ddatblygu proses ar gyfer nodi adborth anffurfiol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 23 o holiaduron. Ymysg sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

> *Eisoes yn ardderchog, A1*
>
> *Mae'r staff yn wych, does dim angen gwneud unrhyw beth*
>
> *Nid yw'r amserlenni yn effeithiol, nid yw amseroedd apwyntiadau byth yn iawn, bob amser yn cael fy ngweld ar ôl yr amser a drefnwyd*

### Cadw'n iach

Ar adeg yr arolygiad, prin iawn oedd y deunydd hybu iechyd a oedd ar gael. Argymhellwn y dylai'r practis ddarparu taflenni gwybodaeth a gwybodaeth benodol am driniaethau a chyngor ataliol i'w gleifion. O'r 23 o gleifion a gwblhaodd holiadur, dywedodd 22 wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod taflenni gwybodaeth a gwybodaeth benodol am driniaethau a chyngor ataliol ar gael i'w gleifion

## Gofal gydag urddas

Dywedodd pob un o'r cleifion ond un a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Ar lawr daear y practis, roedd derbynfa ac ardal aros cynllun agored. Os oedd angen siarad â chlaf yn breifat, naill ai'n bersonol neu dros y ffôn, gallai'r staff gynnal y sgyrsiau hynny yng nghefn ardal y dderbynfa neu yn swyddfa rheolwr y practis.

Nodwyd gennym bod gwybodaeth ysgrifenedig am gleifion yn cael ei storio mewn cabinetau ffeilio. Nid oedd allweddi ar gael ar gyfer nifer o'r cabinetau hyn neu nid oedd cloeon arnynt. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym bod cofnodion cleifion yn cael eu gosod y tu ôl i ddesg y dderbynfa ond bod cleifion ac ymwelwyr â'r practis yn gallu eu gweld. Er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth bersonol a sensitif ei diogelu, argymhellwn y dylai'r practis sicrhau y caiff yr holl wybodaeth am gleifion ei storio'n ddiogel ac allan o olwg ymwelwyr â'r practis.

Roedd gan bob un o'r deintyddfeydd ddrysau y gellid eu cau pan oedd claf yn cael triniaeth, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom nyrs yn gadael drws deintyddfa yn gilagored, ac o ganlyniad gellid clywed sgwrs y claf. Argymhellwn y dylai pob aelod o staff sicrhau y caiff drysau'r deintyddfeydd eu cau pan fydd claf yn cael triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau y caiff yr holl wybodaeth am gleifion ei storio'n ddiogel ac allan o olwg ymwelwyr â'r practis.

Dylai pob aelod o staff y practis sicrhau y caiff drysau deintyddfeydd eu cau pan fydd claf yn cael triniaeth.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan

o hynny) a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd bob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd fwy neu lai eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Roedd y rhestr prisiau a oedd yn nodi costau triniaethau preifat wedi'i harddangos yn y ddwy dderbynfa. Dywedwyd wrthym mai dim ond cleifion y GIG na chodir tâl arnynt am driniaethau y mae'r practis yn eu trin, sy'n golygu nad oes angen rhestr prisiau'r GIG.

Gwelsom fod taflen y practis yn cynnwys gwybodaeth am oriau agor y practis, manylion y staff a gwybodaeth arall i gleifion, ond roedd angen ychwanegu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, sef cyfeiriad e-bost y practis, sut i gael adborth gan gleifion, y trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion treisgar a sarhaus, hyfforddiant i staff a hawliau a chyfrifoldebau cleifion.

Gwelsom fod yr arwyddion yn y practis yn ddigonol ar y cyfan, er enghraifft, y lleoliadau na allai cleifion fynd iddynt a lleoliad y toiled. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwyddion yn nodi lleoliad y deintyddfeydd.

Gwelsom fod manylion y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis ac oriau agor y practis wedi'u harddangos y tu allan.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddaru ei daflen gwybodaeth am y practis yn unol â'r rheoliadau cyfredol

Dylai'r practis roi arwyddion ar ddrysau'r deintyddfeydd er mwyn helpu cleifion

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn siarad Saesneg. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion hynny a gwblhaodd yr holiadur eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu dewis iaith.

## Gofal amserol

Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt

broblem ddeintyddol frys. Fodd bynnag, roedd manylion am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos ar ffenestr flaen y practis ac yn cael eu rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn cynnig apwyntiad arall, pe byddai hynny'n briodol. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth

Dangosodd adolygiad o gofnodion y cleifion fod cleifion yn cael eu holi ynghylch eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Gwelsom fod mynediad i'r practis yn dda. Roedd y brif fynedfa yn arwain at y dderbynfa a'r ardaloedd aros. Roedd gris bach wrth y brif fynedfa ond roedd gan y practis ramp cludadwy y gellid ei ddefnyddio i hwyluso mynediad i'r rheini sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd un o'r ddwy ddeintyddfa ar y llawr daear y gallai'r rheini ag anawsterau symudedd gael mynediad iddi.

Er bod toiled i gleifion ar y llawr daear, roedd yn rhy fach i ddefnyddiwr cadair olwyn.

Roedd gan y practis bolisi Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, polisi Cyfle Cyfartal a pholisi Cyfrinachedd ar waith.

### Gwrando a dysgu o'r adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Ond nid oedd yn glir. Argymhellwn y dylid ei ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â phroses gwynion y GIG "Gweithio i Wella"[1] ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat, ei fod yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017[2]. Dylid hefyd arddangos y polisi yn y dderbynfa a/neu'r ardaloedd aros. Gwelsom boster "Gweithio i Wella" wedi'i arddangos yn yr ardal aros.

Roedd y practis yn cadw ffolder cynhwysfawr yn cynnwys cofnodion o'r cwynion llafar ac ysgrifenedig a dderbyniwyd, y camau a gymerwyd a'r canlyniadau.

Rydym yn argymell y dylai'r practis roi system ar waith ar gyfer nodi pryderon llafar/anffurfiol, er enghraifft, cadw llyfr nodiadau yn y dderbynfa. Ar y cyd â'r wybodaeth am gwynion ffurfiol, byddai hyn yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu sy'n ailadrodd.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn monitro Google Reviews a COMPASS, sy'n monitro adolygiadau o weithgarwch deintyddol y GIG. Rydym yn argymell y dylai'r practis ystyried dulliau amgen o gael adborth gan gleifion, er enghraifft, cynnal arolygon o gleifion a/neu flwch awgrymiadau.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddaru ei bolisi a'i weithdrefnau ar gyfer cwynion er mwyn cynnwys gwybodaeth glir am y broses gwynion mewn perthynas â thriniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat.

Dylai'r practis arddangos ei bolisi a'i weithdrefnau ar gyfer cwynion, mewn perthynas â thriniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth ddeintyddol y GIG, yn y dderbynfa/ardal aros.

---

[1] "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/made

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol ac yn ymddangos yn lân ac yn daclus, er bod rhai arwyddion o ôl traul yr oedd angen ymdrin â nhw.

Roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, yn ogystal â thystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd. Fodd bynnag, roedd angen i'r practis adolygu ei ffeil diogelu rhag ymbelydredd.

Roedd y practis yn cofnodi canllawiau NICE er mwyn gallu cyfeirio atynt, ond roedd angen iddo sicrhau y caiff cofnodion meddygol cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion yn ystod pob ymweliad.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn neu'n gymharol lân.

Roedd y tu allan i'r adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Y tu mewn i'r adeilad, nodwyd y canlynol gennym:

- Ar y llawr cyntaf, roedd y llawr wrth fynd i mewn i'r ystafell staff yn anniogel a rhaid ymdrin â hynny cyn gynted â phosibl
- Roedd y drws i flwch y mesurydd trydan ar y llawr cyntaf wedi torri ac mae angen gosod drws newydd

- Nid oedd llawr yr ystafell ddiheintio ar y llawr daear wedi'i selio ac roedd arwyddion o ddifrod arno. Roedd yr arwyneb gwaith laminad hefyd wedi'i ddifrodi.  Mae angen ymdrin â'r materion hyn.

- Dylid cael gwared ar y carped ar lawr yr ystafell ddiheintio ar y llawr cyntaf a gosod llawr priodol yn lle hynny

- Dylid gosod blaenau cwpwrdd a droriau newydd ag arwyneb llyfn yn unig yn lle'r ymyl pren ar y cabinetau yn y ddeintyddfa ar y llawr cyntaf, a thrwy hynny sicrhau y gellir cynnal gweithdrefnau croes-heintio yn effeithiol

- Mae angen selio llawr y ddeintyddfa ar y llawr cyntaf. Nodwyd gennym bod trefniant blodau wedi'u sychu yn y ddeintyddfa ac argymhellwn y dylid cael gwared arno er mwyn dileu unrhyw risg o groes-heintio.

- Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod gwyntyll yn cael ei ddefnyddio yn y ddeintyddfa ar y llawr cyntaf ac argymhellwn y dylid rhoi'r gorau i'w ddefnyddio er mwyn osgoi unrhyw achosion o groes-heintio.

Nodwyd gennym bod dyfeisiau cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel yn y practis. Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn gweithio'n briodol. Nid oedd pob dyfais diffodd tân wedi'i gosod yn sownd wrth y wal neu mewn stondin penodedig ac argymhellwn y dylid ymdrin â hyn. Roedd cyfarwyddiadau i'w gweld ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng. Nid oedd y ddau ddrws yng nghefn y practis wedi'u cloi. Argymhellwn y dylid cadw'r drysau hyn dan glo bob amser er mwyn atal aelod o'r cyhoedd rhag mynd i ardaloedd gwaharddedig.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus a gwastraff amalgam yn ddiogel. Cyn ei gasglu, roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio yn y toiled i staff ar y llawr cyntaf (yn y bath) nad oedd wedi'i gloi ar ddiwrnod yr arolygiad. Nid ydym o'r farn bod y safle hwn yn safle storio addas gan fod yr ystafell yn cael ei defnyddio fel toiled ac ystafell newid. Dylai'r practis ddarparu cyfleusterau storio canolog ar wahân ar gyfer ei wastraff clinigol, yn ddelfrydol cynhwysydd penodedig a diogel wedi'i osod y tu allan i'r adeilad.

Roedd y practis yn gwaredu dannedd a dynnwyd gyda'i wastraff clinigol. Argymhellwn y dylid gwaredu dannedd a dynnwyd nad ydynt yn cynnwys

amalgam drwy'r biniau eitemau miniog ac y dylid gwaredu dannedd sy'n cynnwys amalgam gyda gwastraff amalgam penodedig y practis.

Mae Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 yn dynodi bod yn rhaid i bob busnes ddarparu dulliau addas ar gyfer gwaredu cynhyrchion mislif ym mhob ystafell ymolchi i ferched. O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae "dyletswydd gofal" ar fusnesau i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel ar eu safle, hyd at yr adeg gwaredu terfynol. Roedd gan y practis dri thoiled. Roedd dau ar y llawr daear (un i'r cleifion ac un i'r staff) ac roedd un ar y llawr cyntaf. Nodwyd gennym nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gyfer gwaredu cynhyrchion mislif ac argymhellwn y dylid gosod biniau cynhyrchion mislif ym mhob toiled ac y dylai'r practis adolygu'r rheoliadau presennol o ran gwaredu'r gwastraff hwn.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom nad oedd gan y practis lawer o ddata 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH). Argymhellwn y dylid adolygu'r sefyllfa hon er mwyn sicrhau y darperir gwybodaeth am bob sylwedd sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio sylweddau yn ddiogel ar gyfer yr holl sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis. Nodwyd bod cynhyrchion glanhau a chemegau eraill yn cael eu storio mewn cypyrddau ac ystafelloedd nad oeddent wedi'u cloi yn y practis. Dylid eu storio'n ddiogel.

Roedd gan y practis lyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) a oedd yn cael ei gwblhau pan fyddai damwain yn digwydd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau yr ymdrinnir â'r diffygion canlynol:

- Y gris i ystafell y staff
- Y drws i flwch y mesurydd trydan
- Y lloriau yn yr ystafelloedd diheintio a'r ddeintyddfa ar y llawr cyntaf
- Gosod ymylon newydd yn lle'r ymylon pren yn y ddeintyddfa ar y llawr cyntaf
- Yr arwyneb gwaith sydd wedi'i ddifrodi yn yr ystafell ddiheintio ar y llawr daear

Dylai'r practis gael gwared ar y trefniant blodau sych a'r gwyntyll o'r ddeintyddfa

ar y llawr cyntaf.

Dylai'r practis sicrhau bod pob dyfais diffodd tân yn ddiogel.

Argymhellwn y dylid cadw'r drysau mynediad yn y cefn dan glo bob amser, gan sicrhau eu bod yn gweithredu fel allanfeydd tân.

Argymhellwn y dylid storio'r holl wastraff peryglus yn ddiogel.

Dylai'r practis adolygu ei ffeil COSHH a'i diweddaru.

Dylai'r practis sicrhau y caiff unrhyw gynhyrchion glanhau a chemegau eu storio'n ddiogel

Dylai'r practis osod biniau cynhyrchion mislif ym mhob toiled.

Dylai'r practis sicrhau ei fod yn gwaredu ei wastraff cynhyrchion mislif a dannedd a dynnwyd yn unol â'r rheoliadau cyfredol.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodedig ar y llawr daear a'r llawr cyntaf ar gyfer glanhau a sterileiddio (diheintio) offer deintyddol fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[3]. Roedd yr ystafelloedd yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Er bod cyfleusterau golchi dwylo penodedig yn yr ystafell ddiheintio ar y llawr cyntaf, nid oedd cyfleusterau o'r fath yn yr ystafell ar y llawr daear, ac argymhellwn y dylai'r practis osod sinc ychwanegol at y diben hwn. Argymhellwn hefyd y dylai'r practis adolygu'r canllawiau presennol mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer defnyddio sinciau a bowlenni.

Gwelsom nad oedd mesurau atal a rheoli heintiau bob amser yn cael eu rhoi ar waith. Fel rhan o'r broses glanhau cyn-sterileiddio, gwelsom nyrs yn gosod darnau o offer o dan dap a oedd yn rhedeg yn hytrach na'u gosod o dan y dŵr. Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Ni welsom dystiolaeth bod rhaglenni cynnal a chadw dyddiol ar waith ac argymhellwn y dylid ymdrin â hyn

---

[3] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddiheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

ac y dylid cynnwys profion gweddillion protein fel rhan o'r broses cyn-sterileiddio. Yn ogystal, roedd y staff yn diheintio argraffau drwy eu chwistrellu â diheintydd. Y dull cywir yw eu trochi mewn golch diheintydd â thoddiant priodol. Argymhellwn y dylai'r practis fabwysiadu'r dull hwn yn unol â'r canllawiau. Darparodd pob aelod o staff dystiolaeth eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant croes-heintio ond argymhellwn y dylai pob aelod o staff ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar weithdrefnau a phrotocolau diheintio.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd diheintio.

Roedd gwaith i'w anfon i'r labordai deintyddol ac a oedd wedi'i ddychwelyd gan y labordai deintyddol yn cael ei storio yn yr ystafell ddiheintio ar y llawr daear. Argymhellwn y dylid ei storio rywle arall yn y practis er mwyn osgoi achosion o groes-heintio.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar yn unol â WHTM 01-05 ac argymhellwn y dylai'r practis gyflwyno rhaglen o archwiliadau rheolaidd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis osod sinc ychwanegol ar gyfer golchi dwylo yn unig yn yr ystafell ddiheintio ar y llawr daear.

Dylai'r practis adolygu'r canllawiau presennol mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer defnyddio sinciau a bowlenni.

Dylai'r practis gyflwyno rhaglen o waith cynnal a chadw ddyddiol ar gyfer ei offer diheintio, gan gynnwys profion gweddillion protein

Dylai'r practis ddiheintio argraffau yn unol â'r canllawiau presennol.

Dylai pob aelod o'r staff ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar weithdrefnau a phrotocolau diheintio

Er mwyn osgoi achosion o groes-heintio, argymhellwn na ddylid storio gwaith sy'n cael ei anfon i'r labordai deintyddol na gwaith sy'n cael ei ddychwelyd o'r labordai deintyddol yn yr ystafell ddiheintio.

Dylai'r practis gyflwyno archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd fel yr argymhellir gan WHTM 01-05.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru. Er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'i rôl, os ceir argyfwng meddygol, byddem yn argymell y dylid diwygio polisi argyfyngau meddygol y practis er mwyn cynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r staff.

Mae dyletswydd ar ddarparwyr gofal iechyd i ddarparu sgiliau dadebru os bydd unigolyn yn dioddef ataliad cardio-anadlol ac i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi a'u diweddaru'n rheolaidd hyd at lefel o fedrusrwydd sy'n briodol ar gyfer eu rôl[4]. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)[5]. Roeddent yn cael eu storio mewn ystafell nad oedd wedi'i chloi ac argymhellwn y dylid eu storio'n ddiogel, lle y gellid cael gafael arnynt yn hawdd. Mae angen i'r practis hefyd sicrhau y caiff ei silindrau ocsigen eu storio lle na ellir eu dymchwel na'u difrodi. Roedd y Midazolam yn cael ei storio yn yr oergell yn ystafell y staff ac argymhellwn y dylid ei symud a'i storio mewn oergell benodol ar gyfer cyffuriau, wrth ymyl pecyn offer mewn argyfwng. Er bod y practis yn storio cyffuriau gwrthfiotig a chyffuriau lladd poen mewn cwpwrdd dan glo, roedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio ac argymhellwn y dylid eu gwaredu'n briodol. Nodwyd gennym bod system ar waith yn y practis ar gyfer sicrhau bod cyffuriau ac offer argyfwng yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio ond nid oedd rhestr wirio ar gyfer cyffuriau eraill nad oeddent yn gyffuriau argyfwng. Argymhellwn, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y dylai'r practis gyflwyno system i sicrhau bod cyffuriau nad ydynt yn gyffuriau argyfwng yn cael eu harchwilio'n rheolaidd

---

[4] https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/

[5] Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwr.

Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn briodol ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw broblemau a oedd yn ymwneud â chyffuriau neu ddyfeisiau meddygol ac argymhellwn y dylai'r practis roi gwybod am unrhyw broblemau a geir mewn perthynas â meddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol drwy gynllun Cerdyn Melyn MHRA[6].

Nid oedd pob bin ar gyfer eitemau miniog yn y deintyddfeydd wedi'i osod ar y wal ac argymhellwn y dylid unioni hyn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi ar gyfer argyfyngau meddygol i gynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau staff mewn argyfwng.

Dylai'r practis sicrhau y caiff ei becyn offer a'i gyffuriau ar gyfer argyfwng, a'i silindrau ocsigen, eu storio'n ddiogel.

Dylai'r practis sicrhau ei fod yn storio unrhyw gyffuriau yn briodol ac yn ddiogel.

Dylai'r practis drefnu i waredu unrhyw gyffuriau nad ydynt yn gyfredol.

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, dylai'r practis gyflwyno system i sicrhau bod cyffuriau nad ydynt yn gyffuriau argyfwng yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n briodol.

Dylai'r practis roi gwybod i'r MHRA am unrhyw adweithiau andwyol i gyffuriau drwy ei Gynllun Cerdyn Melyn.

Dylai'r practis sicrhau bod biniau ar gyfer eitemau miniog wedi'u labelu'n gywir ac wedi'u gosod ar y wal yn y deintyddfeydd.

[6] https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Er bod pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn plant, dim ond un deintydd a oedd wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn oedolion agored i niwed. Argymhellwn y dylai pob aelod o staff ymgymryd â'r hyfforddiant hwn.

Roedd trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hynny yn y practis. Roedd gan y staff clinigol a'r staff anghlinigol dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn oedolion agored i niwed.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod offer priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd yr offer radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Nid oedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn gyflawn. Argymhellwn y dylid ei diwygio i gynnwys enw'r Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd, cyfarwyddiadau gweithredu gan gynnwys cynllun wrth gefn os bydd offer yn methu, trefniadau prosesu a storio, a chyfres o'r rheolau lleol - wedi'u llofnodi gan bob aelod o staff.

Dywedwyd wrthym bod gwybodaeth am ansawdd delweddau, mewn rhai achosion, yn cael ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion. Argymhellwn y dylai'r

practis gofnodi ansawdd delweddau mewn cofnodlyfr penodedig ac y dylid rhoi rhaglen o archwiliadau sicrhau ansawdd ar waith.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[7] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)[8] 2000, ac eithrio un deintydd, darparodd pob aelod o staff clinigol dystiolaeth eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae angen i'r practis ddatblygu polisi ymbelydredd hefyd.

Wrth fynd o amgylch y practis, nodwyd nifer o ddarnau o offer a stoc nad oeddent yn gyfredol. Argymhellwn y dylai'r practis gynnal archwiliad llawn o'i stoc ac ad-drefnu ei offer a'i stoc er mwyn sicrhau y cânt eu storio'n briodol, eu bod yn gyfredol ac y caiff yr holl stoc nad yw'n gyfredol ei waredu'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu ffolder diogelu rhag ymbelydredd gynhwysfawr

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r rheolau lleol

Dylai'r practis ddatblygu polisi ymbelydredd

Dylai'r practis gofnodi ansawdd delweddau mewn llyfr penodedig a rhoi rhaglen o archwiliadau sicrhau ansawdd ar waith.

Dylai'r practis gynnal archwiliad llawn o'i stoc, gan waredu'r holl stoc ac offer nad yw'n gyfredol a storio'r holl stoc cyfredol yn briodol.

## Gofal effeithiol

---

[7] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol - http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[8]http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n barhaus er budd y cleifion. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau. Argymhellwn y dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol, gan gynnwys sicrhau ansawdd delweddau, cofnodion meddygol ac adolygiadau gan gymheiriaid, gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn y dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau clinigol.

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod unrhyw adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal. Byddem yn argymell y dylid trefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd rhwng y deintyddion at y diben hwn. Rydym yn awgrymu hefyd y dylai'r nyrsys deintyddol drefnu cyfarfodydd tebyg.

Efallai yr hoffai'r practis ystyried gwneud cais am adnodd datblygu practisau 'Maturity Matrix Dentistry' y Ddeoniaeth. Mae'r 'Maturity Matrix Tool' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben adolygu cymheiriaid.

## Technoleg llywodraethu gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y practis yn cadw cofnodion papur a oedd yn cael eu storio mewn cabinetau ffeilio yn ardal y dderbynfa. Roedd hen ffeiliau yn cael eu storio mewn cabinetau ffeilio ar y llawr cyntaf. Nodwyd gennym bod y ffolderi unigol lle cadwyd y cofnodion papur yn llawn ac yn anniben, a bod rhai radiograffiau yn rhydd. Dylid ystyried dulliau amgen o ffeilio cofnodion papur, gan gynnwys radiograffiau.

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom mewn rhai achosion fod hepgoriadau, ac yn benodol nad oedd unrhyw gofnod o'r canlynol:

- Radiograffiau - archwiliadau cyffredin drwy dynnu lluniau o'r ochr wrth gnoi ('bitewing')
- Gradd ansawdd radiograffiau
- Rheswm cleifion dros ddod at y deintydd
- Hanes cymdeithasol cleifion, gan gynnwys eu defnydd o dybaco ac alcohol
- Cyngor ar roi'r gorau i smygu
- Archwiliad o'r meinwe meddal, y tu allan i'r geg a'r tu mewn i'r geg a sgrinio ar gyfer canser
- Cydsyniad cleifion i driniaeth ac opsiynau triniaeth
- Dylai'r clinigydd wrthlofnodi a dyddio'r hanesion meddygol.

Yn ogystal, mae angen cofnodi llythyrau atgyfeirio wrth eu hanfon a chadw cofnod o ran p'un a ddarllenwyd yr ymatebion.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom gydberthnasau da â phob aelod o staff.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd strwythurau rheoli da ar waith er budd y staff ond roedd angen i'r practis gyflwyno rhaglen arfarnu staff.

Roedd angen dosbarthu cofnodion cyfarfodydd staff i bob aelod o staff.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Gorseinon. Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am ei reoli o ddydd i ddydd. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod pob aelod o staff yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod rheolwr y practis yn adolygu'r polisïau, er y nodwyd nad oedd y polisi ar gyfer chwythu'r chwiban wedi cael ei ddiweddaru ers 2007, ac argymhellwn y dylid ei adolygu. Argymhellwn hefyd y dylai'r practis ofyn i'r staff dystio eu bod wedi darllen y polisïau ac wedi'u deall.

Roedd pob aelod o staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis adolygu ei bolisi ar gyfer chwythu'r chwiban

Dylai'r practis ofyn i'r staff ddangos eu bod wedi darllen polisïau a gweithdrefnau'r practis

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Gwelsom gydberthynas gadarn rhwng pob aelod o staff y practis.

Dywedwyd wrthym bod rhaglen sefydlu ar waith yn y practis a gwelsom restr wirio ar gyfer y rhaglen hon ar ffeil. Ar hyn o bryd, nid yw rheolwr y practis yn cynnal arfarniadau staff. Dywedodd wrthym mai'r prif ddeintydd blaenorol fu'n gyfrifol am gynnal arfarniadau staff a'i fod wedi cadw'r holl ddogfennaeth berthnasol. Argymhellwn y dylai'r practis roi rhaglen o arfarniadau rheolaidd ar waith gan gynnwys pwyntiau adolygu a chyfleoedd i asesu cynnydd; dylid dogfennu'r broses hon, llofnodi'r dogfennau a chadw copïau yn ffeiliau'r staff. Nodwyd gennym bod pob aelod o staff wedi llofnodi contract cyflogaeth

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, dim ond un deintydd oedd yn meddu ar dystysgrif hyfforddiant diogelu oedolion gyfredol. Pan wnaethom hysbysu rheolwr y practis o hyn ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaeth drefniadau i'r staff fynychu hyfforddiant ym mis Hydref 2018. Yn ogystal, ni welsom unrhyw dystiolaeth fod un o'r deintyddion cyswllt wedi bodloni ei ofynion o ran DPP ac argymhellwn y dylai'r practis roi sicrwydd i AGIC fod y deintydd wedi bodloni'r gofynion hyn.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd a chaiff cofnodion eu llunio ar ôl y cyfarfodydd hyn ond ni chânt eu dosbarthu i'r staff. Byddem yn argymell y dylid dosbarthu'r cofnodion i bob aelod o staff ar ôl pob cyfarfod er mwyn iddynt eu llofnodi i ddangos tystiolaeth eu bod wedi'u darllen ac wedi nodi unrhyw gamau gweithredu.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

(DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol.

Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis roi rhaglen o arfarniadau rheolaidd ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff.

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi gweld y cofnodion ar ôl pob cyfarfod staff.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Nodwyd gennym bod cyffuriau yn cael eu storio mewn cwpwrdd nad oedd wedi'i gloi yn yr ystafell ddiheintio ar y llawr daear. | Dylid cadw'r cyffuriau i gyd yn ddiogel er mwyn sicrhau na all cleifion gael gafael arnynt drwy gamgymeriad. | Codwyd hyn gyda rheolwr y practis. | Symudodd rheolwr y practis y cyffuriau ar unwaith i gwpwrdd dan glo yn ei swyddfa, sydd hefyd dan glo. |

# Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Gorseinon

## Dyddiad arolygu: 25 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Gorseinon

## Dyddiad arolygu:25 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod taflenni gwybodaeth a gwybodaeth benodol am driniaethau a chyngor ataliol ar gael i'w gleifion | 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd | Caiff taflenni gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth benodol am driniaethau amrywiol a dulliau atal megis cyngor dietegol, defnyddio cynnyrch fflworid a chyngor ar roi'r gorau i smygu eu harchebu. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018 (ar waith) |
| Dylai'r practis sicrhau y caiff yr holl wybodaeth am gleifion ei storio'n ddiogel ac allan o olwg ymwelwyr â'r practis. | 4.1 Gofal Gydag Urddas | Bydd system gyfrifiadurol ar waith yn y practis erbyn mis Medi 2018 a chedwir cofnodion cleifion yn electronig. Caiff cofnodion papur a ysgrifennwyd â llaw eu cadw a'u storio'n ddiogel yn nhrefn yr wyddor mewn cypyrddau y gellir eu cloi mewn ardal dan glo a dim ond aelodau | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | o'r staff fydd yn gallu mynd iddi. | | |
| Dylai pob aelod o staff y practis sicrhau y caiff drysau deintyddfeydd eu cau pan fydd claf yn cael triniaeth. | | Mae cyfrinachedd y claf wedi bod yn flaenoriaeth fawr i'n practis erioed. Dylai pob aelod o staff sicrhau bod y drysau ar gau bob amser pan fydd claf yn y feddygfa. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Dylai'r practis ddiweddaru ei daflen gwybodaeth am y practis yn unol â'r rheoliadau cyfredol | 4.2 Gwybodaeth i Gleifion | Fel y cynghorwyd, ysgrifennwyd taflen wybodaeth newydd fanylach ar gyfer cleifion a oedd yn cynnwys cyfeiriad e-bost y practis, dulliau o gael adborth cleifion, trefniadau ar gyfer delio â chleifion sy'n ymddwyn mewn ffordd dreisgar a difrïol, hyfforddiant staff a hawliau a chyfrifoldebau cleifion | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Dylai'r practis roi arwyddion ar ddrysau'r deintyddfeydd er mwyn helpu cleifion | | Mae arwyddion wedi cael eu gosod ar ddrysau'r feddygfa er mwyn helpu cleifion. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Dylai'r practis ddiweddaru ei bolisi a'i weithdrefnau ar gyfer cwynion er mwyn cynnwys gwybodaeth glir am y broses gwynion mewn perthynas â thriniaeth ddeintyddol y GIG a | 6.2 Hawliau pobl | Fel y cynghorwyd, caiff polisi Cwynion cliriach ei baratoi a'i arddangos yn ardal y dderbynfa sy'n gyson â phroses gwynion y GIG "Gweithio i Wella"1, ac o | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia | Medi 2018 (ar waith) |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| thriniaeth ddeintyddol breifat. | | ran triniaeth ddeintyddol breifat, sy'n gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017. | Tsialampana | |
| Dylai'r practis arddangos ei bolisi a'i weithdrefnau ar gyfer cwynion, mewn perthynas â thriniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth ddeintyddol y GIG, yn y dderbynfa/ardal aros. | | Caiff y Polisi Cwynion wedi ei ddiweddaru ei arddangos yn yr ystafell aros ac yn y dderbynfa. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018<br>(ar waith) |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau yr ymdrinnir â'r diffygion canlynol:<br>Y gris i ystafell y staff<br>Drws blwch y mesurydd trydan<br>Y lloriau yn yr ystafelloedd dihalogi a'r ddeintyddfa ar y llawr cyntaf<br>Gosod ymylon newydd yn lle'r ymylon pren yn y ddeintyddfa ar y llawr cyntaf<br>Yr arwyneb gwaith sydd wedi'i ddifrodi yn yr ystafell ddihalogi ar y llawr daear | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | • Mae'r gris i ystafell y staff eisoes wedi ei drwsio fel blaenoriaeth.<br>• Trefnir i ddrws newydd gael ei roi yn lle hen ddrws blwch y mesurydd trydan ar y llawr cyntaf.<br>• Gosodir llawr priodol nad yw'n llithrig.<br>• Caiff cabinetau newydd eu gosod a bydd arwyneb llyfn ar flaenau'r cypyrddau a'r droriau er mwyn sicrhau y gellir cynnal gweithdrefnau croes-heintio yn effeithiol. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ei drwsio.<br>Hydref 2018<br>Hydref 2018<br>Erbyn Awst 2020 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | • Caiff yr arwyneb gwaith sydd wedi'i ddifrodi yn yr ystafell ddihalogi ar y llawr gwaelod ei atgyweirio neu gosodir un newydd. | | Hydref 2018 |
| Dylai'r practis gael gwared ar y trefniant blodau sych a'r wyntyll o'r ddeintyddfa ar y llawr cyntaf. | | Cafwyd gwared ar y blodau sych a'r wyntyll | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn |
| Dylai'r practis sicrhau bod pob dyfais diffodd tân yn ddiogel. | | Gosodwyd y diffoddwyr tân yn sownd wrth y waliau yn ddiogel. | Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Argymhellwn y dylid cadw'r drysau mynediad yn y cefn dan glo bob amser, gan sicrhau eu bod yn gweithredu fel allanfeydd tân. | | Mae drysau'r cefn dan glo drwy'r amser a chedwir yr allweddi wrth ymyl y drysau. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Argymhellwn y dylid storio'r holl wastraff peryglus yn ddiogel. | | Darperir cyfleuster storio canolog ar wahân er mwyn sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Rhagfyr 2018<br>(eisoes mewn cysylltiad â chwmni casglu |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwastraff clinigol) |
| Dylai'r practis adolygu ei ffeil COSHH a'i diweddaru. | | Bydd y practis yn adolygu ei ffeil COSHH ac yn ei diweddaru. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Hydref 2018 |
| Dylai'r practis sicrhau y caiff unrhyw gynhyrchion glanhau a chemegion eu storio'n ddiogel | | Caiff cynhyrchion glanhau a chemegion eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Erbyn Hydref 2018 |
| Dylai'r practis osod biniau cynhyrchion mislif ym mhob toiled. | | Caiff biniau cynhyrchion mislif eu caffael. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018<br>(yn aros am ddyfynbrisiau) |
| Dylai'r practis sicrhau ei fod yn gwaredu ei wastraff cynhyrchion mislif a dannedd a dynnwyd yn unol â'r rheoliadau cyfredol. | | Gwneir trefniadau i waredu gwastraff cynhyrchion mislif a dannedd a dynnwyd yn unol â'r rheoliadau cyfredol. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018<br>(yn aros am ddyfynbrisiau) |
| Dylai'r practis osod sinc ychwanegol ar gyfer golchi dwylo yn unig yn yr ystafell ddihalogi ar y | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a | Bydd sinc ychwanegol newydd yn cael ei gosod yn yr ystafell ddihalogi ar y | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia | Hydref 2018 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| llawr daear. | Dihalogi | llawr gwaelod. | Tsialampana | |
| Dylai'r practis adolygu'r canllawiau presennol mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer defnyddio sinciau a bowlenni. | | Mae'r Canllawiau Cyfredol wedi cael eu hadolygu ynghylch y defnydd o sinciau a bowlenni fel bod gweithdrefnau dihalogi'r practis yn cydymffurfio'n llawn. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Dylai'r practis gyflwyno rhaglen o waith cynnal a chadw ddyddiol ar gyfer ei offer dihalogi, gan gynnwys profion gweddillion protein | | Mae rhaglen o waith cynnal a chadw ddyddiol ar gyfer ei offer dihalogi, gan gynnwys profion gweddillion protein wedi cael ei chyflwyno. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Dylai'r practis ddiheintio argraffau yn unol â'r canllawiau presennol. | | Mae'r canllawiau cyfredol wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod argraffau yn cael eu diheintio'n gywir bob amser. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Dylai pob aelod o'r staff ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar weithdrefnau a phrotocolau dihalogi | | Bydd pob aelod o'r staff clinigol yn mynd ar gwrs 'Atal a Rheoli Heintiau' ar 12.11.18 a bydd un nyrs (Lisa Lee) hefyd yn mynd ar y cwrs perthnasol ar gyfer y brif nyrs ddihalogi ar 6.2.2019. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Mae'r cyrsiau perthnasol wedi cael eu trefnu. |
| Er mwyn osgoi achosion o groes-heintio, argymhellwn na ddylid storio gwaith sy'n cael ei anfon i'r labordai deintyddol na gwaith sy'n cael | | Ni chaiff gwaith labordai ei storio mwyach yn yr ystafell ddihalogi ar y llawr gwaelod er mwyn osgoi croes- | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ei ddychwelyd o'r labordai deintyddol yn yr ystafell ddihalogi. | | heintio. Crëwyd ardal benodedig yn yr ystafell stoc. | Tsialampana | |
| Dylai'r practis gyflwyno archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd fel yr argymhellir gan WHTM 01-05. | | Mae archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd, a gynhelir gan bob aelod o'r tîm sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau dihalogi, wedi cael eu cyflwyno fel yr argymhellwyd. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi ar gyfer argyfyngau meddygol i gynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau staff mewn argyfwng. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau | Cafodd polisi argyfyngau meddygol y practis ei ddiweddaru gan gynnwys gwybodaeth am rôl a chyfrifoldeb pob aelod o staff mewn argyfwng. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Dylai'r practis sicrhau y caiff ei becyn offer a'i gyffuriau ar gyfer argyfwng, a'i silindrau ocsigen, eu storio'n ddiogel. | | Cedwir yr ystafell lle caiff y pecyn offer a chyffuriau ar gyfer argyfwng a'r silindrau ocsigen eu storio dan glo bob amser. Caiff y silindrau ocsigen eu storio yn y fath fodd fel nad oes modd eu taro i'r llawr. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018 |
| Dylai'r practis sicrhau ei fod yn storio unrhyw gyffuriau yn briodol ac yn ddiogel. | | Caiff pob cyffur ei storio mewn ystafell dan glo. Cedwir Midazolam mewn rhewgell gyffuriau benodedig wrth ymyl y pecyn offer ar gyfer argyfwng. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r practis drefnu i waredu unrhyw gyffuriau nad ydynt yn gyfredol. | | Mae hen gyffuriau wedi cael eu gwaredu'n briodol. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Awst 2018 |
| Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, dylai'r practis gyflwyno system i sicrhau bod cyffuriau nad ydynt yn gyffuriau argyfwng yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n briodol. | | Mae aelod penodedig o'r staff wedi bod yn gwneud yn siŵr bob mis bod unrhyw gyffuriau nad ydynt yn rhai ar gyfer argyfwng yn gyfredol ac yn cael eu storio'n gywir. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Awst 2018 |
| Dylai'r practis roi gwybod i'r MHRA am unrhyw adweithiau andwyol i gyffuriau drwy ei Gynllun Cerdyn Melyn. | | Bydd y practis yn rhoi gwybod am unrhyw adweithiau andwyol i gyffuriau i'r MHRA drwy ei Gynllun Cerdyn Melyn fel yr argymhellwyd. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Awst 2018 |
| Dylai'r practis sicrhau bod biniau ar gyfer eitemau miniog wedi'u labelu'n gywir ac wedi'u gosod ar y wal yn y deintyddfeydd. | | Caiff y biniau ag offer miniog ynddynt eu labelu'n gywir a'u gosod ar y wal yn y meddygfeydd. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018 |
| Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn oedolion agored i niwed. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i | Mae'r aelodau o staff nad ydynt wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed wedi trefnu lle | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia | Wedi trefnu lle ar gyfer Hydref 2018 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | niwed | ar y cwrs cyntaf sydd ar gael (10.10.2018). | Tsialampana | |
| Dylai'r practis ddatblygu ffolder diogelu rhag ymbelydredd cynhwysfawr | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Caiff ffolder ymbelydredd cynhwysfawr ei ddatblygu a'i gadw, fel yr argymhellwyd. | | Medi 2018 (ar waith) |
| Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn llofnodi'r rheolau lleol | | Bydd pob aelod o staff yn darllen ac yn llofnodi'r rheolau lleol, fel yr argymhellwyd. | | Medi 2018 (ar waith) |
| Dylai'r practis ddatblygu polisi ymbelydredd | | Caiff polisi ymbelydredd newydd ei ddatblygu, fel yr argymhellwyd. | | Medi 2018 (ar waith) |
| Dylai'r practis gofnodi ansawdd delweddau mewn llyfr penodedig a rhoi rhaglen o archwiliadau sicrhau ansawdd ar waith. | | Caiff llyfr cofnodion penodedig ei gyflwyno i gofnodi ansawdd delweddau a chynhelir archwiliad sicrwydd ansawdd rheolaidd. | | Medi 2018 |
| Dylai'r practis gynnal archwiliad llawn o'i stoc, gan waredu'r holl stoc ac offer nad yw'n gyfredol a storio'r holl stoc gyfredol yn briodol. | | Caiff stoc y practis ei gwirio'n rheolaidd a gwaredir hen stoc a hen offerynnau. Caiff y stoc gyfredol ei storio'n gywir. | | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Argymhellwn y dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrywiaeth eang o archwiliadau | 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol | Cynhelir archwiliadau clinigol yn rheolaidd gyda'r nod o nodi meysydd i'w | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| clinigol. | | gwella. | Tsialampana | |
| Dylai'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddiben adolygu cymheiriaid. | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesedd | Trefnir cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd i ddeintyddion er mwyn cynnal adolygiad gan gymheiriaid, fel yr argymhellwyd. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod ymweliad pob claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a roddwyd a gwybodaeth berthnasol am luniau pelydr-X. | 3.5 Cadw cofnodion | Bydd y practis yn sicrhau bod y broses o gadw cofnodion yn gynhwysfawr a chyfoes. Mae cyfrifiaduron wedi cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod pob un o'r meysydd mewn Cofnodion Cleifion yn cael eu llenwi a'u cadw'n briodol. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Eisoes wedi ymdrin â hyn. |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r practis adolygu ei bolisi ar gyfer chwythu'r chwiban | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Caiff polisi chwythu'r chwiban y practis ei ddiweddaru. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018 |
| Dylai'r practis ofyn i'r staff ddangos eu bod wedi darllen polisïau a gweithdrefnau'r practis | | Bydd pob aelod o staff yn llofnodi polisïau a gweithdrefnau'r practis gan gadarnhau eu bod wedi eu darllen. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia | Eisoes wedi ymdrin â nhw |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | Tsialampana | |
| Dylai'r practis roi rhaglen o arfarniadau rheolaidd ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. | 7.1 Gweithlu | Caiff rhaglen reolaidd o arfarniadau staff ei chyflwyno. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018 |
| Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi gweld y cofnodion ar ôl pob cyfarfod staff. | | Bydd cofnodion yn dilyn pob cyfarfod staff yn cael eu harddangos yn yr ystafell staff. | Vasileios Diamantopoulos ac Antonia Tsialampana | Medi 2018 |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Vasileios Diamantopoulos**

**Teitl swydd:** **Pennaeth y Practis**

Dyddiad:13.09.18